# HUET, THOMAS (bu farw 1591), cyfieithydd yr Ysgrythurau

**Enw:** Thomas Huet
**Dyddiad marw:** 1591
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfieithydd yr Ysgrythurau
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Glanmor Williams

Aeth i Goleg Corpus Christi, Rhydychen, yn 1544. Nid yw'n debygol mai efe oedd yr Huet a raddiodd (B.A.) yn 1562, serch y dywedir iddo ddyfod yn D.D. Cafodd nifer o fywiolaethau — swydd meistr Holy Trinity College, Pontefract, rheithoraethau Cefnllys a Llanbadarn ym Maelienydd, sir Faesyfed, 9 Mai 1556, prebendiaeth Llanbadarn Trefeglwys, Sir Aberteifi, 29 Tachwedd 1559, rheithoraeth Diserth, 21 Ebrill 1560, ei ddewis yn brifgantor Tyddewi, 27 Ebrill 1560, a chael ei ethol yn ganon yno ar 30 Ebrill 1561, prebendiaeth Ystrad, Sir Aberteifi, yn 1565, a phrebendiaeth Llandegla, sir Faesyfed. Cafodd ei gymeradwyo gan yr esgob Richard Davies a'r archesgob Parker i'w ddewis yn esgob Bangor ym mis Ionawr 1566 eithr nis etholwyd. Tanysgrifiodd i'r Deugain namyn Un Erthygl yn 1562.

Cyfieithodd lyfr y Datguddiad i Destament Newydd (Cymraeg) 1567. Yn 1571 diswyddodd glochydd eglwys gadeiriol Tyddewi am i hwnnw ddirgelu llyfrau pabyddol, a pharodd losgi'r llyfrau hynny. Gwnaeth ef a'i berthnasau gryn elw trwy brydlesu tiroedd eglwysig a gwerthu hawliau i fywiolaethau. Bu farw 19 Awst 1591 yn y Tŷ Mawr, Llysdinam, a chladdwyd yng nghangell Llanafan Fawr (Brycheiniog). Am rai o'i deulu, gweler dan 'Gwynne o'r Garth.'

## Awdur

Syr Glanmor Williams, Abertawe

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*;

*Athenae Cantabrigienses (1858–1913)*, ii, 108;

Jones a Freeman, *The History and Antiquities of St. David's (1856)*, 338-46;

E. Yardley, *Menevia Sacra. Arch. Camb. (1927)*;

W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*, 47-50;

*Bulletin of the Board of Celtic Studies*, ix, 274;

S. David's Chapter Acts (yn Ll.G.C.), cyfrolau A a B;

[ Jones, *The Illustrated History and Biography of Brecknockshire (1886)*, 3ydd arg., ii, 227].

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Huet

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 2495653

Wikidata: http://www.wikidata.org/entity/Q7790877

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/